# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS RHAGFYR 2020:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor yn y Ganolfan nos Fercher y 9fed o Ragfyr, 2020am 7 y.h.
Estynwyd croeso i'r aelodau. Defnyddiwyd yr holl ystafell i gadw pawb yn bell arwahan. Unwaith eto dilynwyd rheolau caeth o ran diogelwch, ac atgoffwyd pawb i roi gwybod os bydd unrhyw newid yn iechyd yr aelodau yn y dyddiau ar ôl y cyfarfod.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Llinos haf Pritchard.

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher yr 11eg o Dachwedd, 2020 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: HLJ / HS.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Cynllun Cyfaill:***
Y gwasanaeth yn dal ar gael.
***2. Ffordd A4086 a Llifogydd:***
Fu dim datblygiad pellach ac ni chafwyd mwy o wybodaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd (CG). Gofynnwyd i'r Clerc a'r Cyng. KMJ gysylltu eto i weld beth oedd bwriad peirianwyr CG.
***3. Lampau Stryd Nantperis:***
Lamp Lôn Fain yn gweithio, ond un Tangadlas yn dal heb olau.
***4. Coed Nadolig:***
Derbyniwyd y coed. Codwyd a gosodwyd golau ar un Llanberis gyda'r criw bach arferol yn cynorthwyo. Rhoddwyd golau hefyd ar goeden o flaen Maes Padarn ac ar ffens yn Cae Bach. Penderfynwyd y dylid ail ystyried eto osod rhagor o oleuadau ar y bolion lampau stryd. Bydd hyn yn dod yn ôl ar y rhaglen yn y gwanwyn.
Unwaith eto IO a'i mab fu'n gyfrifol am godi a goleuo'r goeden yn Nantperis. Dywedodd ei bod yn teimlo y dylai criw ddod at eu gilydd i wneud hynny yno y flwyddyn nesaf. Un gymuned sydd yna a dau bentref. Dylid trin y pentrefi'n gyfartal. Diolchwyd i IO ac i'r gweddill, a chytunwyd i weithredu felly ym mhen y flwyddyn.
***5. Cae Chwarae Min y Llyn:***
Cyflwynodd y Clerc gais am gymorth ariannol tuag at adnewyddu'n gyfangwbl y cwrs antur yn y Cae yma. Hyd yma chafwyd dim ymateb oddi wrth gwmni First Hydro er fod y Clerc yn gwybod fod y mater wedi ei drafod. Un pris a ddaeth i law a hynny am offer sydd union yr un fath a'r offer presennol, ond eu bod wedi eu gosod mewn dur yn hytrach nag yn syth yn y ddaear. Er holi sawl gwaith chafwyd dim pris gan gwmni lleol. Os daw sicrwydd am gymorth a bod hwnnw yn sylweddol penderfynwyd bwrw mlaen i gael y gwaith wedi ei wneud, a hynny cyn diwedd y flwyddyn ariannol os yn bosib.
***6. Grwp Llanberis:***
Bellach mae Grwp Llanberis wedi ei sefydlu ac wedi cyfarfod unwaith. Yn anffodus fe fethodd rhai a bod yn bresennol ac eraill yn cael trafferthion technegol. Serch hynny roedd yn gyfarfod adeiladol. Sefydlwyd y Grwp gan CG mewn cydweithrediad a'r Cyngor hwn i geisio cydlynnu gweithgaredd yn ymwneud a'r fro. Yn ogystal bydd is grwpiau'n trafod agweddau unigol ar fywyd y fro, megis trafnidiaeth, digwyddiadau ag ati. Nodwyd bod sawl her yn wynebu'r gymuned yn sgil y cynydd fu yn nifer yr ymwelwyr a'r digwyddiadau a drefnir mewn perthynas a gweithgareddau awyr agored. Bydd y Grwp yn rhoi cyfeiriad i'r gwaith hwnnw er lles y gymdeithas.
Adroddwyd fod sawl datblygiad hefyd ar y gweill: Cais Treftadaeth y Byd UNESCO ar gyfer ardaloedd llechi y gogledd orllewin. Cynllun LleChi mewn perthynas a'r cais. Gwaith dehongli yn Allt Ddu. Datblygu'r Amgueddfa Lechi ac edrych ar reolaeth Parc Padarn. Dyfodol Mynydd Gwefru gan First Hydro a Glyn Rhonwy gan CG.

Yn y flwyddyn newydd (2021) mae bwriad i greu Fframwaith Adfywio i Wynedd gan ganolbwyntio ar 13 o ardaloedd sy'n cynnwys Bro Peris. Bellach mae'n amlwg fod yr awdurdodau cyhoeddus gwahanol yn ystyried o ddifri effaith twristiaeth ar yr ardal yn drwg yn ogystal a'r da. Mae Covid-19 wedi dangos pwysigrwydd yr ardal i eraill, ond wedi dangos hefyd nad ydi'r ardal yn medru dygymod a'r pwysau eithriadol ar rai adegau. Daeth yr effeithiau negyddol ac mae nhw yn effeithio y cymunedau lleol a mwynhad a phrofiad yr ymwelwyr. Adroddwyd bod astudiaeth wedi bod o ardal yn Awstria lle bu ymdrech i ddatrys problemau tebyg er budd mentrau busnes a thrigolion yn ogystal a'r ymwelwyr. Yn gefndir i hyn hefyd rai ystyried problemau newid hinsawdd a chreu economi carbon isel. yn ogystal ag ehangu'r tymor. Bu son hefyd am greu delwedd oedd yn cynnwys iaith a diwylliant yn ogystal a'r amgylchedd ac antur
Yn y cyfarfod dewiswyd y Clerc DT i fod yn gadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf yn nechrau Chwefror. Diolchwyd i'r Clerc.

***7. Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig:***

Yn ôl KMJ roedd ymateb da wedi bod, nifer o strydoedd a grwpiau o dai yn edrych yn dda.

**5 MATERION ERAILL:**

***1. Cronfa Mângymorthdaliadau:***

Penderfynwyd estyn gwahoddiad i fudiadau ac eraill wneud cais am gymorth o'r Gronfa. Mae disgwyl llao o geisiadau eleni gan fod llawer o fudiadau heb fod yn cyfarfod ac heb gynnal digwyddiadau. Dyddiad cau i ystyried ceisiadau ymhen y mis fydd 5yh, dydd Gwener, Ionaw 8fed, 2021.

***2.Baw Ci:***

Cafwyd cwynion am faw ci difrifol ar Ffordd Capel Coch, ond heb dystiolaeth prin fod dim y gellid ei wneud. Roedd rhai yn amau mai cŵn yn cael eu gollwng yn rhydd yn hytrach an dim arall oedd yn gyfrifol. Awfrymwyd y gallai'r Ysgol dynnu sylw at y mater, a rhoi cyhoeddusrwydd trwy gyfrwng y plant i'w rhieni ac eraill. Dywedodd KMJ y byddai'n codi'r mater efo CG.

**6 GOHEBIAETH:**

***1. APCE:***

Cylchlythyr yn nodi fod yr Awdurdod wedi cyhoeddi Dogfen Ymgynghori Ffurfiol ynglyn â Cynllun Llesiant a Chorfforaethol (Amcanion Gwella Llesiant 2021-26). Mae'r manylion a holiadur byr iawn ar Wefan APCE a gofynnir i aelodau a'r cyhoedd ei llenwi. Mae'r pwyslais ar yr Amgylchedd, Cymunedau a Ffyrdd o Weithio er mwyn ceisio gwella amgylchiadau a ffyrdd yr Awdurdod o weithio.

***2. Cylchlythyr Tystion Jehofa:***

Yn amgai copi o Y Tŵr Gwylio gan nodi fod y mudiad yn cysylltu a phob haen o lywodraeth o'r lleol i'r cenedlaethol. Mae copi o'r cylchgrawn ar gael ar wefan y Tystion

**7 MATERION ARIANNOL:**

**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Dachwedd, 2020**

**Cyfrif Cyfredol**: £21,350.52 **Cyfrif Cadw**: £5,365.79

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**

**CYFANSWM … … £1993.37**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/10/2020 a 28/11/2020:**

**CYFANSWM … … £150.05**

Cynnig ac eilio: TT / IH.

**8 PRAESEPT A CHYLLIDEB 2021 - 2022:**

Trafodwyd yr arian oedd mewn llaw a gwariant tebygol o hyn i ddiwedd y flwyddyn. Roedd llawer yn dibynnu ar y cymorth y gellid gobeithio amdano tuag at cae Chwarae Min y Llyn. Roedd peth arian heb ei wario a oedd wedi ei ystyried ar gyfer offer awyr agored. Hefyd roedd angen trwsio wyneb Cae peldroed UEFA, a goynnwyd i'r Clerc holi am brisiau. Roedd hefyd angen ystyried faint i'w glustnodi ar gyfer Cofeb y Chwarelwyr. Nid ar chwarae bach y gellid disgwyl cefnogaeth oddi wrth lawer o fusnesau o gofio effaith Covid-19 arnynt.
Trafodwyd grantiau a chredwyd efallai y gellid creu rhai arbedion gan fod nifer o gymdeithasau a gafodd arian y llynedd yn dal heb ei wario. Nodwyd fod derbyniadau'r Fynwent i lawr ac er fod arian i'w neilltuo ar gyfer cronfa tir, efallai y byddai'n rhaid defnyddio hynny. Nodwyd hefyd y gellid mwy na theyg wneud arbedion hefyd gyda graean ar y ffyrdd, ond roedd angen gwneud arolwg o'r biniau i wled yn glir beth oedd y sefyllfa.

Gofynnwyd i'r Clerc edrych eto ar y gyllideb ddrafft a'i hail gyflwyno i'r cyfarfod nesaf cyn penderfynu ar y praesept. Gwneir y ddau beth yng nghyfarfod Ionawr.

**9 LLWYBRAU**

Hyd yma chafwyd dim cyfle i weithio ar y llwybrau. Roedd y Clerc wedi anfon at CG ynglyn â Llwybr Pyllau Dŵr. Yn y cyfamser gofynwyd iddo hefyd anfon ynglyn â giat ar lwybr Tandderwen, a hefyd i holi pam fod giat mochyn yn gorwedd heb ei chodi ers misoedd ger Pont y Meibion, y ddau yn Natperis. Nodwyd dhefyd y dylid holi am ddyfodol y llwybr troed pren yn Nant Ucha'.

**10 Y FYNWENT:**

Oherwydd prinder amser, penderfynwyd adolygu prisiau'r Fynwent yn mis Ionawr

**11. ADRODDIADAU ALLANOL:**

**Y Ganolfan:**

Wedi ei hail agor ar ôl y Clo byr oherwydd Covid-19.

**12 CYFARFOD NESAF:**

Dyddiad y cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan os bydd amgylchiadau yn caniatau. 7.00 y.h. Nos Fercher 13 Ionawr, 2021.

Materion i'w trafod, Cyllideb, Praesept, Cyflog Clerc, Grantiau, Cofeb y Chwarelwyr

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 20 Ionawr, 2021.